# Rheoliad ar gyfer Disgyblu Myfyrwyr

**Rheoliad 21: 2023 Fersiwn 1.0**
**Daw i rym: 1 Mai 2023**

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

| Dyddiad | Yn disodli | Disgrifiad o'r Newid |
|---|---|---|
| 1 Chwefror 2021 | 2021 Fersiwn 01 | Mân newidiadau i deitlau swyddi |
| 1 Chwefror 2021 | 2020 Fersiwn 02 | Dileu dirwyon disgyblu. Mân newidiadau i amserlenni. |
| 1 Awst 2020 | 2020 Fersiwn 01 | Cyflwyno cyn-gyfarfodydd posibl ar gyfer rhai sy'n wynebu risg, nodi'r cyfnodau amser yn dilyn cosbau, ehangu ar y 'Terfynu Ymrestriad' a chyfnod oedi cyn ail-dderbyn o 12 mis, a chynnwys rôl y Dirprwy Is-ganghellor yn y trafodion. |
| 16 Mawrth 2023 | 2020 Fersiwn 1.1 | Adolygu ac addasu deiliaid swyddi a theitlau Swyddogion Disgyblu. Diweddaru'r dolennau i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol |

| Perchennog y Ddogfen | Cymeradwywyd gan | Dyddiad Cymeradwyo | Amlder Adolygu |
|---|---|---|---|
| Ysgrifennydd y Brifysgol | Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd. | 23 Mawrth 2023 | Bob tair blynedd. |

Sylwer: O dan amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd, gall y cyfrifoldebau a neilltuir i Ysgolion, Penaethiaid Ysgol, Swyddogion Ysgol neu Bwyllgorau Ysgol yn y rheoliadau hyn gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Penaethiaid Coleg, Swyddogion Coleg neu Bwyllgorau Coleg yn y drefn honno, fel bo'n briodol.

# Rheoliad ar gyfer Disgyblu Myfyrwyr

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

## 1. Y Broses Adrodd

1.1 Bydd y broses hon yn berthnasol i unrhyw fyfyriwr yr honnir iddo/iddi dorri Rheoliadau Cyffredinol y Brifysgol i'r holl fyfyrwyr a / neu'r Cod Ymddygiad Myfyrwyr. Yn ogystal, bydd y weithdrefn yn cynnwys torri amodau a osodir gan ysgolion academaidd a gwasanaethau proffesiynol y Brifysgol. Mae'r Rheoliad hwn yn ymdrin â digwyddiadau ar draws Campws y Brifysgol, gan gynnwys yn Neuaddau Preswyl y Brifysgol.

1.2 Dylai'r rheoliad hwn gael ei ddefnyddio gan bob ysgol academaidd a gwasanaeth proffesiynol i ddelio â materion disgyblu sy'n deillio o achosion o dorri rheoliadau'r Brifysgol.

1.3 Mae'r Rheoliad hwn yn gymwys i unigolion sydd ar hyn o bryd (neu a oedd yn ystod y cyfnod dan sylw) yn fyfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor. Mae'r Weithdrefn hon yn gymwys i ddigwyddiadau yn y Brifysgol ac mewn mannau eraill.

1.4 Gall myfyriwr geisio cefnogaeth ac arweiniad gan y canlynol ar unrhyw adeg yn ystod y broses hon:

a. Undeb y Myfyrwyr – a all gynnig cyngor annibynnol ac, os oes angen, cynrychiolaeth a chefnogaeth i'r myfyriwr yn ystod y broses ffurfiol;
b. Gwasanaethau Myfyrwyr – a all gynnig cefnogaeth i unrhyw fyfyriwr yn ystod y broses hon.

1.5 Mae gan fyfyrwyr yr ymdrinnir â hwy o dan y broses hon hawl, mewn unrhyw gyfarfod neu yn ystod y Bwrdd Disgyblu neu'r Bwrdd Apêl, i gael cwmni a/neu gael eu cynrychioli gan un o'r canlynol. Yn achos Undeb y Myfyrwyr bydd ganddynt hawl i gynnal yr achos ar ran y myfyriwr, gyda chydsyniad y myfyriwr:

a) Cyfaill neu berthynas, neu
b) Gynrychiolydd o Undeb y Myfyrwyr, a all siarad ar ran y myfyriwr, a bod yn bresennol ar ran y myfyriwr os oes angen.

Mae hyn yn ychwanegol at unrhyw weithiwr iechyd proffesiynol neu weithiwr cefnogi a fyddai fel rheol yn mynd gyda'r myfyriwr neu a allai fod yn bresennol, yn ôl doethineb y Brifysgol, trwy wneud addasiadau rhesymol i fyfyriwr.

1.6 Bydd y Brifysgol yn penodi:

a) Swyddogion Disgyblu,

b) Bwrdd Disgyblu, a
c) Bwrdd Apêl.

1.7 Bydd adolygiadau o benderfyniad Swyddog Disgyblu yn cael eu cynnal gan ddau Swyddog Disgyblu arall. Bydd apeliadau yn erbyn penderfyniad y Bwrdd Disgyblu yn cael eu hystyried gan y Bwrdd Apêl.

1.8 Dylid hysbysu Ysgrifennydd y Brifysgol (neu ei enwebai) yn ysgrifenedig, trwy complaints@bangor.ac.uk am ddigwyddiadau a allai olygu torri Rheoliadau'r Brifysgol a / neu'r Cod Ymddygiad Myfyrwyr. Gellir cyflwyno adroddiadau am ddigwyddiadau gan fyfyriwr, gan Undeb y Myfyrwyr, aelod o staff, neu gan aelod o staff sy'n gweithredu ar ran myfyriwr a chyda'u cydsyniad (e.e. Tiwtor Personol).

Os yw'r unigolyn sy'n adrodd y digwyddiad yn credu y gallai hefyd fod yn drosedd, rhaid iddynt roi ystyriaeth ofalus i roi gwybod i'r Heddlu am y digwyddiad. Dylai unigolion fod yn ymwybodol o'r canlynol:

- Os rhoddir gwybod am ddigwyddiad i'r Heddlu yn ogystal â'r Brifysgol, efallai y bydd y Brifysgol yn penderfynu cynnal asesiad cychwynnol o'r sefyllfa ac yn ystyried unrhyw gamau y dymuna eu cymryd nes ceir canlyniad ymchwiliad yr Heddlu. Caiff yr asesiad cychwynnol hwn ei gynnal naill ai gan Ddirprwy Is-ganghellor, neu gan Banel Asesu (fel yr amlinellir yn Adran 2.5). (Gweler hefyd adran 2.6)

1.9 Rhaid cyflwyno pob adroddiad am ddigwyddiadau yn ysgrifenedig. Bydd unrhyw adroddiad (a thystiolaeth ategol) yn cael eu cadw a gellir eu defnyddio wrth ystyried y digwyddiad yn y lle cyntaf ac mewn unrhyw ystyriaeth ddilynol o dan y broses, gan gynnwys gan y Bwrdd Disgyblu a chan y Bwrdd Apêl.

1.10 Gall Ysgrifennydd y Brifysgol benderfynu ei bod yn briodol ceisio mynd i'r afael â digwyddiad a adroddir yn anffurfiol, cyn ymgynghori â'r Swyddogion Disgyblu. Ni fydd y cam anffurfiol hwn yn rhan o'r broses ffurfiol, a bydd yn ymgais i ddatrys mân faterion. Caiff ei gynnal ar sail asesiad risg, a chyda cydsyniad y rhai dan sylw. Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn enwebu unigolyn i ymgymryd â'r broses anffurfiol hon.

1.11 Ar ddiwedd unrhyw broses anffurfiol, bydd yr unigolyn a enwebwyd gan Ysgrifennydd y Brifysgol i gynnal y broses yn cyflwyno adroddiad i Ysgrifennydd y Brifysgol yn manylu ar yr unigolion yr ymgynghorwyd â hwy, y trafodaethau a gynhaliwyd, y dystiolaeth a gasglwyd ac unrhyw ganlyniad(au) a awgrymwyd (o ran gweithredu pellach a awgrymid ac ystyriaeth o unrhyw gosbau). Yna bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd a, pan fo'n ymarferol bosibl, o fewn 5 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, naill ai'n:

a. cymeradwyo'r adroddiad, gan sicrhau bod y myfyriwr yn derbyn gohebiaeth yn cadarnhau'r canlyniadau, a'r amserlenni ar gyfer eu cwblhau, ac yn hysbysu'r myfyriwr bod y broses ddisgyblu wedi dod i ben; neu'n
b. cyfarwyddo bod y digwyddiad yn cael ei gyfeirio at y broses ddisgyblu ffurfiol fel yr amlinellir isod. Bydd y Swyddfa Gwasanaethau Llywodraethu yn cadw

cofnod o'r holl brosesau anffurfiol a gynhaliwyd, a gwneir nodyn cyfrinachol ar FyMangor.

1.12 Rhaid i enwau achwynwyr a thystion eraill (ac unrhyw wybodaeth a allai arwain at eu hadnabod) gael eu golygu cyn i ddogfennau gael eu dosbarthu o dan unrhyw gam o'r broses ddisgyblu i unrhyw berson heblaw'r Swyddogion Disgyblu, aelodau'r Bwrdd Disgyblu, aelodau'r Bwrdd Apêl neu aelodau perthnasol eraill o staff y Brifysgol fel sy'n ofynnol gan y digwyddiad (e.e. Tiwtor Personol). Rhaid cadw'r holl wybodaeth bersonol sy'n rhan o'r broses ddisgyblu yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018.

1.13 Ar unrhyw adeg yn y broses ddisgyblu ffurfiol, gall Swyddogion Disgyblu benderfynu ei bod yn briodol ceisio mynd i'r afael yn anffurfiol â digwyddiad a adroddir trwy gyfrwng cyfryngu; dim ond gyda chytundeb pawb sy'n rhan o'r digwyddiad y gellir gwneud hynny. Mae'r broses gyfryngu'n golygu "camu o'r neilltu" oddi wrth y broses ddisgyblu mewn ymgais i ddatrys y mater mewn modd derbyniol. Bydd y broses ddisgyblu ac unrhyw derfynau amser dilynol yn cael eu hatal dros gyfnod y cyfryngu. Bydd cyfryngu llwyddiannus yn arwain at sefyllfa lle mae'r Swyddog Disgyblu a phawb sy'n rhan o'r digwyddiad yn cytuno ar ffordd ymlaen a chedwir cofnod o'r cytundeb y daethpwyd iddo gan y Brifysgol. Os na fydd y cyfryngu'n llwyddiannus, rhaid ailafael yn y broses ddisgyblu o'r fan lle cafodd ei 'gohirio'.

1.14 Yn achos myfyrwyr anabl, bydd y Brifysgol yn gwneud addasiadau rhesymol i'r gweithdrefnau yn y Rheoliad hwn, ac yn gwneud pob ymdrech i ddarparu ar gyfer gofynion penodol unrhyw fyfyriwr.

1.15 Bydd y Brifysgol yn cadw cofnodion sy’n ymwneud â materion disgyblu yn unol â deddfwriaeth diogelu data cyhyd ag y bo’n angenrheidiol ac yn briodol gwneud hynny. Bydd hyn yn cynnwys gwneud nodyn cyfrinachol o'r mater ar FyMangor. Os canfyddir bod myfyriwr wedi torri rheolau disgyblu, gall y Brifysgol gyfeirio at faterion o'r fath mewn unrhyw eirda y mae'n ofynnol iddi ei ddarparu yn ddiweddarach i'r myfyriwr (pan fo’n gymesur, yn berthnasol ac yn briodol gwneud hynny).

1.16 Bydd canlyniad yr achosion disgyblu yn parhau’n gyfrinachol rhwng y Brifysgol a'r myfyriwr, ac eithrio amgylchiadau pan fo'n angenrheidiol ac yn briodol i'r Brifysgol adrodd y mater i drydydd partïon allanol (e.e. yr heddlu neu gyrff safonau proffesiynol) neu gyfeirio at y canlyniad mewn unrhyw eirda.

1.17 Dylid nodi y dylai prosesau disgyblu yn neuaddau preswyl y Brifysgol ddilyn yr egwyddorion a nodir yn y Rheoliad hwn. Mae cyfarfodydd disgyblu mewn neuaddau preswyl yn cael eu hystyried yn broses ragarweiniol yn y Rheoliad hwn, a phan nad yw materion yn cael eu datrys ar gam disgyblu'r neuaddau dylid eu trosglwyddo i'r broses ffurfiol a amlinellir yn Adran 2.3. Fel yr amlinellwyd yn Adran 1.5, gall myfyrwyr ofyn am gefnogaeth a chynrychiolaeth gan Undeb y Myfyrwyr ar unrhyw adeg.

## 2. Swyddogion Disgyblu a'u swyddogaethau

2.1 Y canlynol yw Swyddogion Disgyblu'r Brifysgol:

- Y Dirprwy i'r Is-ganghellor
- Y Dirprwy Is-gangellorion
- Deoniaid Colegau
- Y Deon Ymchwil Ôl-radd
- Ysgrifennydd y Brifysgol
- Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol
- Pennaeth Bywyd Preswyl, y Prif Warden, Rheolwr Cefnogaeth Breswyl ac Uwch Wardeniaid
- Yr Uwch Swyddog Diogelu, Ymddygiad a Chwynion

2.2 Fel rheol bydd awdurdodaeth Swyddogion Disgyblu, ac eithrio'r Dirprwy Is-gangellorion a'r Deoniaid, yn cael eu cyfyngu fel a ganlyn:

- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol i ddigwyddiadau sy'n ymwneud ag adeiladau, offer a systemau cyfrifiadurol neu eiddo'r Llyfrgell;
- 
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ystadau a Champws i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â'r adeiladau;
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Campws (Gweithrediadau) i wasanaethau yn eu portffolio;
- Pennaeth Bywyd Preswyl, y Prif Warden, Rheolwr Cefnogaeth Breswyl ac Uwch Wardeniaid i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â Neuaddau Preswyl yn unig;
- Yr Uwch Swyddog Diogelu, Ymddygiad a Chwynion i ddigwyddiadau yng ngham cyntaf anffurfiol y Rheoliad hwn (Adrannau 1.10-1.11).

Mae pob Swyddog Disgyblu yn gymwys i adolygu penderfyniad Swyddog Disgyblu arall fel y nodir yn Adran 4.

2.3 Ar ôl derbyn adroddiad am ddigwyddiad, rhaid i'r Swyddog Disgyblu benderfynu ar sail y dystiolaeth sydd ar gael p'un ai i wneud y canlynol:

a) ymchwilio i'r digwyddiad (fel y nodir yn Adran 2.5),
b) cyfeirio'r adroddiad at Swyddog Disgyblu arall, neu,
c) os nad yw'r Swyddog Disgyblu yn Ddirprwy i'r Is-ganghellor neu'n un o'r Dirprwy Is-gangellorion, cyfeirio'r adroddiad at y Dirprwy i'r Is-ganghellor neu at Ddirprwy Is-ganghellor; gall yr adroddiad gynnwys argymhelliad i wahardd y myfyriwr o'r Brifysgol (fel y nodir yn Adran 3).

2.4 Pan fydd Swyddog Disgyblu yn ymchwilio i ddigwyddiad, ac nad yw'n glir a fydd angen, neu a fydd yn briodol, cymryd camau disgyblu, gall y Swyddog Disgyblu gyfweld â myfyriwr yn anffurfiol. Gall rhywun nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â'r digwyddiad yr ymchwilir iddo fynd gyda'r myfyriwr i'r cyfweliad (e.e. gan Undeb y Myfyrwyr). Os bydd y Swyddog Disgyblu yn penderfynu bod camau disgyblu yn briodol, rhaid dilyn y weithdrefn a ddisgrifir yn Adran 2.5.

Os daw'r Swyddog Disgyblu i'r casgliad, ar ôl ymchwilio i ddigwyddiad yn gychwynnol, nad yw camau disgyblu ffurfiol yn briodol, ni all y Swyddog Disgyblu osod cosb ond gall roi rhybudd llafar a/neu ysgrifenedig i'r myfyriwr. Byddai rhybudd o'r fath yn briodol mewn amgylchiadau lle nad oedd digon o dystiolaeth i ddangos bod y rheoliadau wedi'u torri, ond nad oedd ymddygiad y myfyriwr yn gwbl gyson â disgwyliadau'r Brifysgol fel y'u diffinnir yn Adran 1.1.

2.5 Gall y Dirprwy i'r Is-ganghellor neu Ddirprwy Is-ganghellor, yn gweithredu fel Swyddog Disgyblu, benderfynu galw Panel Asesu cychwynnol ym mhob achos o dan y Rheoliad hwn lle bo'r honiadau yn erbyn y myfyriwr yn ddifrifol, neu os yw'r canlyniadau posibl i'r myfyriwr yn ddifrifol, i fwrw golwg dros yr ystyriaethau diogelu a risg. Mae aelodaeth a chylch gorchwyl y Panel fel a ganlyn:

**Yr Aelodau Craidd**

Y Dirprwy i'r Is-ganghellor neu Ddirprwy Is-ganghellor yn gweithredu fel Swyddog Disgyblu (Cadeirydd)
Deon y Coleg perthnasol neu Bennaeth yr Ysgol berthnasol
Llywydd Undeb y Myfyrwyr (neu ei enwebai)
Ysgrifennydd y Brifysgol
Uwch Swyddog Diogelu, Ymddygiad a Chwynion
Cydlynydd Diogelu, Ymddygiad a Chwynion (Ysgrifennydd)

Yn ogystal, gellir gwahodd un neu fwy o'r canlynol:

Cyfarwyddwr Gweinyddu a Gwasanaethau Myfyrwyr
Cyfarwyddwr Undeb y Myfyrwyr (pan nad yw Llywydd Undeb y Myfyrwyr neu ei enwebai yn bresennol)
Prif Swyddog Pobl

**Cylch Gorchwyl**

Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol (neu ei enwebai) yn cynnull y Panel ym mhob achos o dan y Rheoliad hwn pan fo'r honiadau yn erbyn y myfyriwr yn ddifrifol, neu pan fo'r canlyniadau posibl i'r myfyriwr yn ddifrifol. Os bydd digwyddiad yn cael ei adrodd i'r Brifysgol, bydd y Brifysgol yn ystyried yn unig a dorrwyd Rheoliadau, Codau neu amodau'r Brifysgol a bydd yn gosod cosbau yn unig fel y caniateir o dan y Rheoliad hwn.

Bydd y Panel yn cynnwys yr unigolyn a nodir uchod (fel bo'n briodol), ond gall y Cadeirydd ofyn i aelodau perthnasol eraill o'r staff fod yn bresennol yn y cyfarfod, i gynnig gwybodaeth bellach a / neu gyngor. Cynullir y Panel fesul achos, a bydd yn penderfynu a oes angen cymryd unrhyw gamau cychwynnol o ran yr unigolyn neu unrhyw fyfyrwyr neu staff eraill yr effeithiwyd arnynt gan y digwyddiad.

Pan fernir bod digwyddiad yn ddigon difrifol, bydd y Dirprwy i'r Is-ganghellor / Dirprwy Is-ganghellor yn rhoi sylw mwy cyflym i faterion os bydd angen.

Pan fo digwyddiad wedi cael ei adrodd i'r Heddlu, yn dibynnu ar hyd ymholiad yr Heddlu, gall y Panel gyfarfod ar fwy nag un achlysur, i barhau i asesu risg y sefyllfa fel bo'n briodol.

2.6 Pan fo'r dystiolaeth yn ddigonol, ym marn y Swyddog Disgyblu, ar ôl dilyn y broses yn 2.4 uchod, i gyfiawnhau cyfweliad ffurfiol, bydd Ysgrifennydd y Brifysgol (neu ei enwebai) yn gwneud y canlynol:

[a] Trefnu i'r myfyriwr dan sylw gael ei hysbysu'n ysgrifenedig (sy'n cynnwys trwy e-bost) o leiaf 5 diwrnod gwaith, pan fo hynny’n ymarferol bosib, cyn dyddiad unrhyw gyfweliad arfaethedig bod adroddiad am ddigwyddiad wedi cael ei dderbyn. Dylai'r hysbysiad nodi natur gyffredinol y digwyddiad, cyfeirio at y rheoliadau a dorrwyd, cynnwys manylion y dystiolaeth i gefnogi'r honiad(au), a chynnwys cais i'r myfyriwr fod yn bresennol mewn cyfweliad ar ddyddiad ac amser penodol mewn man penodol; Pan na fo dyddiad ac amser y cyfweliad yn gyfleus i'r myfyriwr, oherwydd gwrthdaro gwirioneddol ag arholiadau, darlithoedd, tiwtorialau, gweithdai ac ati, gall y myfyriwr ofyn am newid y trefniadau.

[b] Trefnu bod o leiaf un aelod arall o staff y Brifysgol yn bresennol yn y cyfweliad fel arsylwr.

[c] Cynghori y gall rhywun nad yw'n gysylltiedig â'r digwyddiad yr ymchwilir iddo fynd gyda'r myfyriwr i'r cyfweliad (e.e. gan Undeb y Myfyrwyr).

[d] Rhoi gwybod i'r myfyriwr am natur y digwyddiad, cyn i'r cyfweliad arfaethedig ddechrau;

[e] Rhoi cyfle i'r myfyriwr ymateb i'r adroddiad am y digwyddiad;

[f] Os bydd yr asesiad risg cychwynnol yn pennu risg uwch i'r myfyriwr ei hun, i fyfyrwyr eraill neu i staff, neu i'r gymuned leol, gellir gofyn i'r myfyriwr gyfarfod ag Ysgrifennydd y Brifysgol (neu ei Enwebai) cyn y cyfarfod gyda'r Swyddog Disgyblu fel y disgrifir yn [a].

2.7 Yn dilyn y cyfweliad ffurfiol, rhaid i’r Swyddog Disgyblu ddewis un neu fwy o’r canlynol:

[a] Diystyru’r adroddiad am y digwyddiad.

[b] Gosod un neu fwy o’r cosbau canlynol:

  [i] Rhybudd llafar a/neu ysgrifenedig i'r myfyriwr. Byddai rhybudd o'r fath yn briodol mewn amgylchiadau lle nad oedd digon o dystiolaeth i ddangos bod y rheoliadau wedi cael eu torri, ond nad oedd ymddygiad y myfyriwr yn gwbl gyson â disgwyliadau'r Brifysgol fel y'u diffinnir yn Adran 1.1.

  [ii] Atal breintiau am gyfnod o ddim mwy na 28 niwrnod.

  [iii] Gofyniad i dalu costau unrhyw ddifrod a achoswyd.

[c] Os yw'r Swyddog Disgyblu yn Ddirprwy i’r Is-ganghellor neu’n Ddirprwy Is-ganghellor, gwahardd y myfyriwr o'r Brifysgol (fel y nodir yn Adran 3).

[d] Os yw'r Swyddog Disgyblu yn Ddirprwy i’r Is-ganghellor, neu’n Ddirprwy Is-ganghellor cyfeirio'r digwyddiad at y Bwrdd Disgyblu.

[e] Os nad yw'r Swyddog Disgyblu yn Ddirprwy i'r Is-ganghellor neu'n Ddirprwy Is-ganghellor, cyfeirio'r digwyddiad at Ddirprwy i'r Is-ganghellor neu Ddirprwy Is-ganghellor gydag, os yw'n briodol, argymhelliad i wahardd y myfyriwr o'r Brifysgol (fel y nodir yn Adran 3).

[f] Os nad yw'r Swyddog Disgyblu yn Ddirprwy i'r Is-ganghellor neu'n Ddirprwy Is-ganghellor, cyfeirio'r digwyddiad at Ddirprwy i'r Is-ganghellor neu Ddirprwy Is-ganghellor gydag argymhelliad y dylid cyfeirio'r digwyddiad at y Bwrdd Disgyblu.

Gall y Swyddog Disgyblu ohirio gwneud penderfyniad wrth ddisgwyl am ymholiadau pellach, cyfweliadau pellach neu ganlyniadau unrhyw achos cyfreithiol sy'n ymwneud â'r digwyddiad(au).

2.8 Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol (neu ei enwebai), o fewn 5 diwrnod gwaith i'r cyfweliad terfynol gyda'r myfyriwr, pan fo'n ymarferol bosibl, yn gwneud y canlynol:

(a) hysbysu'r myfyriwr, yn ysgrifenedig, o'r penderfyniad a'r/neu'r argymhelliad;
(b) hysbysu'r myfyriwr o'i hawl i wneud cais am adolygiad o'r penderfyniad fel yr amlinellir yn Adran 4; a
(c) chadw cofnod o'r dystiolaeth a'r cyfweliad.

2.9 Gall myfyriwr wneud cais am adolygiad o'r canfyddiad neu'r gosb a osodir gan Swyddog Disgyblu fel y manylir yn Adran 4.

2.10 Pan fo penderfyniad wedi'i wneud i gyfeirio'r mater at Fwrdd Disgyblu, rhaid i'r Bwrdd, a gynullir ar gais y Dirprwy i'r Is-ganghellor / Dirprwy Is-ganghellor o dan Adran 2.6, gyfarfod fel rheol o fewn 20 diwrnod gwaith i'r dyddiad yr hysbysir y myfyriwr arno am benderfyniad y Dirprwy i'r Is-ganghellor / Dirprwy Is-ganghellor.

2.11 I fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar raglen a gyflwynir gan sefydliad arall dan delerau cytundeb cydweithredol, bydd cosb a osodir gan y sefydliad arall yn ymwneud â thorri ei rheoliadau disgyblu yn gyfystyr â chosb wedi'i osod gan y Brifysgol.

## 3. Gwahardd o'r Brifysgol

3.1 Gall yr Is-ganghellor (neu Swyddog arall y maent wedi dirprwyo'r grym hwn iddo), y Dirprwy i'r Is-ganghellor a Dirprwy Is-gangellorion wahardd unrhyw fyfyriwr o'r Brifysgol ar unwaith am gyfnod cychwynnol nad yw'n fwy na 28 diwrnod (diffinnir 'Gwahardd o'r Brifysgol' yn y nodiadau ar ddiwedd y Rheoliad hwn).

Os bydd y Brifysgol, ar ddiwedd y cyfnod hwnnw o 28 diwrnod, o'r farn bod angen i'r gwaharddiad barhau, gall yr Is-ganghellor (neu unrhyw Swyddog arall y maent wedi dirprwyo'r grym hwn iddo), y Dirprwy i'r Is-ganghellor a Dirprwy Is-gangellorion wahardd y myfyriwr am gyfnod pellach o amser a ystyrir yn angenrheidiol ac yn briodol yn unol ag Adrannau 3.4 a 3.5. isod. Ni fyddai fel rheol yn dderbyniol gwahardd myfyriwr am fwy na 3 chyfnod o 28 diwrnod yn olynol, heb ystyriaeth bellach gan yr Is-ganghellor.

Gellir gwahardd myfyriwr os ystyrir yn wyneb holl ffeithiau ac amgylchiadau'r achos

bod gwaharddiad o'r fath er lles gorau'r Brifysgol, ei staff neu ei myfyrwyr, neu'r myfyriwr dan sylw, neu ei fod yn angenrheidiol i sicrhau ymchwiliad effeithiol.

3.2 Pan fo myfyriwr wedi'i wahardd, gwahoddir y myfyriwr dan sylw, cyn pen 10 diwrnod gwaith o'r gwaharddiad o'r Brifysgol, i gyflwyno sylwadau yn y cnawd i'r Dirprwy i'r Is-ganghellor neu Ddirprwy Is-ganghellor. Os nad yw'n bosibl i'r myfyriwr gyflwyno yn y cnawd, caiff gyflwyno datganiad ysgrifenedig. Nid oes angen y cyfweliad hwn os yw'r myfyriwr eisoes wedi cael ei gyfweld gan y Dirprwy i'r Is-ganghellor neu Ddirprwy Is-ganghellor o dan Adran 2.5.

3.3 Ar ôl cyfweld â'r myfyriwr, neu ystyried datganiad ysgrifenedig gan y myfyriwr, rhaid i'r Dirprwy i'r Is-ganghellor / Dirprwy Is-ganghellor ddewis un neu fwy o'r canlynol:

[a] Diddymu'r gwaharddiad o'r Brifysgol (er enghraifft, mewn achos o gam-adnabod neu adroddiad maleisus).
[b] Lleihau cyfnod y gwaharddiad i lai na 28 diwrnod.
[c] Cadarnhau y bydd cyfnod y gwaharddiad yn parhau nes bod y cyfnod o waharddiad 28 diwrnod wedi dirwyn i ben.
[d] Cyfeirio'r honiadau yn erbyn y myfyriwr at y Bwrdd Disgyblu.

O dan opsiwn [c], bydd y Dirprwy i'r Is-ganghellor / Dirprwy Is-ganghellor yn cynnal adolygiad o'r gwaharddiad tuag at ddiwedd y cyfnod cychwynnol o 28 diwrnod er mwyn ystyried a oes angen ymestyn y gwaharddiad ymhellach, naill ai am gyfnod o amser penodedig ychwanegol neu nes bod amodau penodedig wedi'u bodloni.

3.4 Os bydd y Dirprwy i'r Is-ganghellor / Dirprwy Is-ganghellor yn ystyried bod angen i fyfyriwr barhau dan waharddiad ar ddiwedd y cyfnod cychwynnol o 28 diwrnod a nodir yn Adran 3.3 uchod, yna bydd Ysgrifennydd y Brifysgol (neu ei enwebai) yn trefnu i ddau Swyddog Disgyblu (a bydd yn rhaid i o leiaf un ohonynt fod yn Ddirprwy i'r Is-ganghellor / Dirprwy Is-ganghellor) gynnal adolygiad o'r digwyddiad drwy archwilio'r dystiolaeth ddogfennol yn unig. Bydd hyn yn cynnwys adroddiad wedi'i gyflwyno gan y Dirprwy i'r Is-ganghellor / Dirprwy Is-ganghellor a argymhellodd y dylid ymestyn cyfnod y gwaharddiad o'r Brifysgol ymhellach. Ni ddylai fod gan yr un o'r ddau Swyddog Disgyblu unrhyw gysylltiad blaenorol â'r achos.

3.5 Yn dilyn adolygu'r dogfennau, bydd y Swyddogion Disgyblu yn gwneud un o'r penderfyniadau a ganlyn:

[a] Cadarnhau y dylid ymestyn cyfnod y gwaharddiad o'r Brifysgol a phennu'r cyfryw gyfnod o waharddiad pellach ag yr ystyrir yn angenrheidiol ac yn briodol ganddynt a / neu unrhyw amodau y bydd yn rhaid eu bodloni.
[b] Cadarnhau na ddylid ymestyn cyfnod y gwaharddiad o'r Brifysgol ymhellach.

3.6 Os penderfynir ymestyn cyfnod y gwaharddiad yn unol ag Adran 3.4 a 3.5 uchod, rhaid i'r Swyddogion Disgyblu argymell i Ysgrifennydd y Brifysgol (neu ei enwebai), unrhyw gamau y mae'n rhaid eu cwblhau cyn y caniateir i'r myfyriwr ddychwelyd i

astudio. Gall y camau hynny gynnwys cyfweliad gyda'r myfyriwr, ystyried yr achos gan y Bwrdd Disgyblu neu gasglu unrhyw dystiolaeth arall sy'n ofynnol. Os caiff myfyriwr ei wahardd am gyfnod estynedig o amser, rhaid i'r myfyriwr roi gwybod i'r Brifysgol am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau yn ystod y cyfnod hwnnw a allai olygu nad yw'r gwaharddiad bellach yn angenrheidiol, er mwyn i'r Brifysgol adolygu'r sefyllfa yn unol â hynny.

3.7 Os bydd y Dirprwy i'r Is-ganghellor / Dirprwy Is-ganghellor, dan Adran 3.3[d] yn cyfeirio'r honiadau at Fwrdd Disgyblu, rhaid i'r Bwrdd Disgyblu gyfarfod fel rheol o fewn 20 niwrnod gwaith o ddechrau'r cyfnod o waharddiad o'r Brifysgol.

3.8 Mewn achosion pan fo cyhuddiad troseddol wedi'i ddwyn yn erbyn myfyriwr, gellir gwahardd y myfyriwr o'r Brifysgol yn unol â'r Adran 3 hon heb ragfarn, wrth ddisgwyl am ganlyniad y broses gyfreithiol. Ni fernir bod gwaharddiad o'r fath yn cynrychioli camau disgyblu gan y Brifysgol yn erbyn y myfyriwr. Pan fydd canlyniad y broses gyfreithiol yn hysbys, dylid ymchwilio i'r mater fel y manylir gan y Swyddogion Disgyblu o dan Adran 3.6.

Mae adran 8 y Rheoliad hwn yn amlinellu sefyllfa'r Brifysgol o ran ei hymdriniaeth o droseddau dan y weithdrefn hon.

3.9 Gall myfyriwr wneud cais am adolygiad o'r penderfyniad i'w wahardd o'r Brifysgol, gan gynnwys penderfyniad i ymestyn cyfnod y gwaharddiad y tu hwnt i'r cyfnod cychwynnol o 28 diwrnod, fel y nodir yn Adran 4.

3.10 Pan fydd gwaharddiad myfyriwr wedi dod i ben, bydd Ysgrifennydd y Brifysgol (neu ei enwebai) yn ysgrifennu i hysbysu'r myfyriwr o'r ffaith hon.

## 4. Adolygiad o Benderfyniad a wnaed gan yr Is-ganghellor, y Dirprwy i'r Is-ganghellor, Dirprwy Is-ganghellor/Dirprwy Is-gangellorion neu'r Swyddog(ion) Disgyblu

4.1 Gall myfyriwr ofyn am adolygiad o'r canlynol:

(a) cosb a osodwyd gan Swyddog Disgyblu (o dan Adran 2.7[b] neu 2.7[c]),
(b) penderfyniad i'w wahardd o'r Brifysgol (o dan Adran 3.3 [c]), neu
(c) benderfyniad i ymestyn cyfnod o waharddiad o'r Brifysgol y tu hwnt i 28 diwrnod (dan Adran 3.5). Rhaid cyflwyno cais am adolygiad yn ysgrifenedig i Ysgrifennydd y Brifysgol o fewn 10 diwrnod, lle bo'n ymarferol bosibl, i dderbyn y penderfyniad perthnasol. Dylai'r myfyriwr egluro'n llawn yn ysgrifenedig y rheswm dros wneud cais am adolygiad, a gall gyflwyno unrhyw dystiolaeth ddogfennol a ystyrir yn briodol.

4.2 Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol (neu ei enwebai) yn trefnu i ddau Swyddog Disgyblu (rhaid i o leiaf un ohonynt fod yn Ddirprwy i'r Is-ganghellor neu'n Ddirprwy Is-ganghellor) gynnal adolygiad o'r digwyddiad trwy archwilio'r dystiolaeth ddogfennol yn unig. Bydd hyn yn cynnwys adroddiad a gyflwynir gan y Swyddog Disgyblu cyntaf. Ni ddylai fod gan yr un o'r ddau Swyddog Disgyblu unrhyw gysylltiad blaenorol â'r achos.

4.3 Yn dilyn adolygu’r dogfennau, bydd y Swyddogion Disgyblu yn gwneud un o’r penderfyniadau a ganlyn:

[a] Cadarnhau'r penderfyniad a wnaed gan y Swyddog(ion) Disgyblu gwreiddiol.
[b] Gofyn i'r Swyddog(ion) Disgyblu gwreiddiol ailystyried y mater yng ngoleuni cyflwyniad y myfyriwr ac unrhyw dystiolaeth arall a ystyriwyd gan y Swyddogion Disgyblu.
[c] Diwygio neu ddiddymu'r gosb a osodwyd gan y Swyddog(ion) Disgyblu gwreiddiol.

4.4 Os gofynnir i'r Swyddog Disgyblu gwreiddiol ailystyried digwyddiad, rhaid adrodd y penderfyniad i Ysgrifennydd y Brifysgol (neu ei enwebai) a fydd yn trefnu i'r ddau Swyddog Disgyblu barhau â'r adolygiad a dod i un o'r penderfyniadau a bennir yn Adran 4.3.

4.5 Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol (neu ei enwebai) yn cyfleu penderfyniad y Swyddogion Disgyblu yn ysgrifenedig i'r myfyriwr gan nodi bod eu penderfyniad yn derfynol. Gall myfyriwr sy’n parhau’n anfodlon ar ôl i’r drefn adolygu ddod i ben, apelio i Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol. Ceir manylion gan Ysgrifennydd y Brifysgol (neu ei enwebai) neu ar wefan Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol.

Mae gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch gynllun annibynnol i adolygu cwynion gan fyfyrwyr. Mae Prifysgol Bangor yn aelod o'r cynllun hwn. Os ydych yn anfodlon ar y canlyniad a gawsoch gan Brifysgol Bangor, efallai y gallwch ofyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch adolygu eich achos. Cewch ragor o wybodaeth ynglŷn â gwneud cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, yr hyn y gall a'r hyn na all edrych arno a'r hyn y gall ei wneud i unioni pethau, yma: https://www.oiahe.org.uk/students/.
Fel rheol rhaid i chi fod wedi cwblhau'r weithdrefn hon cyn cwyno i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Bydd Prifysgol Bangor yn anfon llythyr atoch o'r enw 'Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau' ar ôl i chi gyrraedd diwedd y prosesau hyn ac nad oes unrhyw gamau pellach y gallwch eu cymryd yn fewnol. Os na chaiff eich cwyn/apêl ei chadarnhau, bydd Prifysgol Bangor yn cyflwyno Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau’n awtomatig. Os caiff eich cwyn/apêl ei chadarnhau neu hyd yn oed ei chadarnhau'n rhannol cewch ofyn am Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau gan Brifysgol Bangor os dymunwch. Cewch ragor o wybodaeth am Lythyrau Cwblhau Gweithdrefnau a phryd y dylech ddisgwyl derbyn un, yma: https://www.oiahe.org.uk/providers/completion-of-procedures-letters/.
I ddod â chwyn gerbron Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol, rhaid i chi lenwi Ffurflen Gwyno Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol a’i chyflwyno cyn pen 12 mis wedi ddyddiad penderfyniad terfynol Prifysgol Bangor (dyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau yn arferol), ac fel rheol bydd yn rhaid i chi anfon eich Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau at Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol.

## 5. Y Bwrdd Disgyblu

5.1 Penodir y Bwrdd Disgyblu gan y Senedd a bydd yn cynnwys o leiaf bedwar aelod o'r staff academaidd (gan gynnwys y Cadeirydd). Gall unrhyw un o'r rhai a benodir gan

y Senedd gadeirio Bwrdd Disgyblu.

5.2 Bydd gan Ysgrifennydd y Brifysgol (neu ei enwebai), fel Ysgrifennydd i’r Senedd, y grym i benodi dirprwy aelodau i’r Bwrdd Disgyblu i gymryd lle unrhyw aelodau sy’n absennol, gan gynnwys y Cadeirydd.

5.3 Gwahoddir Llywydd Undeb y Myfyrwyr i enwebu cynrychiolydd i ddod i gyfarfod o’r Bwrdd Disgyblu fel arsylwr. Gall y myfyriwr yr ymchwilir iddo, fodd bynnag, wrthwynebu i bresenoldeb yr arsylwr, fel yr amlinellir yn Adran 7.3. Nid yw hyn yn newid y trefniadau a amlinellir yn 1.4 uchod.

5.4 Ysgrifennydd y Brifysgol (neu ei enwebai), fel Ysgrifennydd y Senedd, fydd Ysgrifennydd y Bwrdd Disgyblu.

5.5 Bydd yr Ysgrifennydd yn cynnull cyfarfod o'r Bwrdd Disgyblu, ac yn rhoi rhybudd ysgrifenedig o'r digwyddiadau i'r myfyriwr yr ymchwilir iddo, y Swyddog Disgyblu dan sylw, aelodau'r Bwrdd Disgyblu a Thiwtor Personol y myfyriwr (neu gyfatebol). Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn rhoi rhybudd ysgrifenedig o 10 diwrnod gwaith o leiaf i'r myfyriwr o ddyddiad, amser a lleoliad cyfarfod y Bwrdd Disgyblu, a bydd yn hysbysu'r myfyriwr o'u hawliau o dan y Rheoliad hwn. Dylai dyddiad y cyfarfod osgoi amseroedd adeg arholiad, dylid ei gynnal yn ystod oriau gwaith arferol (9am - 5pm), a dylid caniatáu i'r myfyriwr ofyn am ddyddiad neu amser arall. Rhaid i'r llythyr nodi natur gyffredinol y digwyddiad, cyfeirio at y rheoliadau, codau, neu amodau a dorrwyd, a chynnwys manylion o’r dystiolaeth i gefnogi'r honiadau.

5.6 Gall y myfyriwr gyflwyno datganiad ysgrifenedig cyn cyfarfod y Bwrdd Disgyblu. Rhaid darparu’r datganiad fel rheol 3 diwrnod gwaith o leiaf cyn cyfarfod y Bwrdd Disgyblu. Ystyrir gwybodaeth newydd a gyflwynir gan y myfyriwr yn y cyfarfod yn ôl doethineb y Cadeirydd yn unig. Dylai unrhyw dystiolaeth newydd gael ei hategu hefyd gan dystiolaeth yn dangos pam nad oedd yn bosibl cyflwyno'r wybodaeth hon yn gynharach.

5.7 Pan fo digwyddiadau'n ymwneud â myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau hyfforddiant proffesiynol, neu gyrsiau academaidd sy'n arwain at gydnabyddiaeth broffesiynol, gellir gwahodd cynrychiolydd o'r proffesiwn perthnasol i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd Disgyblu fel ymgynghorydd. Wrth bennu unrhyw gosb sydd i'w gosod, bydd yn agored i'r Bwrdd Disgyblu wahodd yr ymgynghorydd proffesiynol i roi sylwadau ac i ystyried y sylwadau hynny.

5.8 Bydd y drefn yn y gwrandawiad gerbron y Bwrdd Disgyblu fel y nodir yn Adran 7.

5.9 Mae’r cosbau y gall y Bwrdd Disgyblu eu gosod yn un neu’n fwy o’r canlynol:

[a] Cerydd ffurfiol.
[b] Gofyniad i dalu costau unrhyw ddifrod a achoswyd.
[c] Atal breintiau.
[d] Gwaharddiad o'r Brifysgol.
[e] Terfynu cofrestriad presennol y myfyriwr.
[f] Diarddel o'r Brifysgol.

5.10 Os penderfynir gwahardd myfyriwr o'r Brifysgol, bydd hynny fel rheol am gyfnod o 12 mis o ddyddiad y Bwrdd Disgyblu, oni bai fod y Bwrdd yn cytuno ar gyfnod penodol.

5.11 Os penderfynir terfynu ymrestriad cyfredol myfyriwr, y dyddiad cynharaf y bydd cais newydd i'r Brifysgol yn cael ei ystyried fydd 12 mis o ddyddiad y Bwrdd Disgyblu. Gall y Bwrdd Disgyblu hefyd argymell i Ysgrifennydd y Brifysgol (neu ei enwebai) unrhyw gamau gweithredu y bydd yn rhaid eu cwblhau cyn y caniateir i'r myfyriwr ddychwelyd at ei astudiaethau. Gall y camau hynny gynnwys cyfweliad gyda'r myfyriwr, ystyriaeth bellach gan y Bwrdd Disgyblu neu gasglu unrhyw dystiolaeth arall sy'n ofynnol ei chael cyn gwneud penderfyniad i aildderbyn.

(Diffinnir Atal Breintiau, Gwahardd o'r Brifysgol, a Diarddel o'r Brifysgol yn y nodiadau i'r Rheoliad hwn).

5.12 O fewn 5 diwrnod gwaith, lle bo’n ymarferol bosib, o gwblhau trafodion y Bwrdd Disgyblu, bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn hysbysu’r myfyriwr, yn ysgrifenedig, am ganfyddiad y bwrdd ac unrhyw gosb (os o gwbl) a osodir. Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol (neu ei enwebai) ar yr un pryd yn hysbysu’r myfyriwr o’r hawl i apêl fel y nodir yn Adran 6.

## 6. Y Bwrdd Apêl

6.1 Mae gan fyfyriwr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Bwrdd Disgyblu i'r Bwrdd Apêl, a bydd penderfyniad y bwrdd hwnnw’n derfynol.

6.2 Rhaid cyflwyno apêl yn erbyn y Bwrdd Disgyblu i Ysgrifennydd y Brifysgol o fewn 10 diwrnod gwaith, pan yn ymarferol bosib, o dderbyn penderfyniad y Bwrdd Disgyblu. Bydd yr Apêl yn datgan a yw'r apêl yn erbyn y canfyddiad neu'r gosb, neu'r ddau, a bydd yn gosod y sail dros yr apêl.

6.3 Ystyrir apeliadau am y rhesymau a ganlyn yn unig:

[a] Diffygion neu afreoleidd-dra yn y modd y cynhaliwyd y Bwrdd Disgyblu, a lle y gallai'r diffygion, yr afreoleidd-dra neu’r cyngor dan sylw fod wedi effeithio ar y penderfyniad.

[b] Amgylchiadau personol eithriadol sy’n gysylltiedig â phenderfyniad y Bwrdd Disgyblu. Rhaid i’r apelydd egluro pam na chafodd y Bwrdd wybod am yr amgylchiadau personol hyn cyn y cyfarfod. Lle byddai wedi bod yn bosib i fyfyriwr roi gwybod i’r Bwrdd am amgylchiadau eithriadol cyn y cyfarfod, ond na wnaeth hynny, ni all wedyn gynnig y rhesymau hyn fel sail dros apelio.

6.4 Penodir y Bwrdd Apêl gan y Senedd a bydd yn cynnwys pedwar aelod fel a ganlyn:

- Dau aelod annibynnol o'r Cyngor, a enwebir gan y Cyngor (y bydd un ohonynt yn Gadeirydd y Bwrdd Apêl).
- Dau aelod o’r Senedd.

6.5 Ni chaiff unrhyw un ei benodi i'r Bwrdd Disgyblu yn ogystal â'r Bwrdd Apêl.

6.6 Bydd gan Ysgrifennydd y Brifysgol y grym i benodi dirprwy aelodau y Bwrdd Apêl i gymryd lle unrhyw aelodau sy'n absennol, gan gynnwys y Cadeirydd.

6.7 Gwahoddir Llywydd Undeb y Myfyrwyr i enwebu cynrychiolydd i ddod i gyfarfod o'r Bwrdd Apêl fel arsylwr. Gall y myfyriwr sy'n apelio, fodd bynnag, wrthwynebu i bresenoldeb yr arsylwr, fel y manylir yn Adran 7.3. Nid yw hyn yn newid y trefniadau a amlinellir yn 1.4 uchod.

6.8 Y cworwm ar gyfer cyfarfod o'r Bwrdd Apêl fydd tri aelod, a rhaid i un ohonynt fod yn aelod lleyg o'r Cyngor.

6.9 Pan fo digwyddiadau'n ymwneud â myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau hyfforddiant proffesiynol, neu gyrsiau academaidd sy'n arwain at gydnabyddiaeth broffesiynol, gellir gwahodd cynrychiolydd o'r proffesiwn perthnasol i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd Apêl fel ymgynghorydd. Wrth ystyried materion yn ymwneud â'r gosb a osodwyd gan y Bwrdd Disgyblu, bydd yn agored i'r Bwrdd Apêl wahodd yr ymgynghorydd proffesiynol i roi sylwadau ac i ystyried y sylwadau hynny.

6.10 Ysgrifennydd y Brifysgol (neu ei enwebai), fel Ysgrifennydd y Senedd, fydd Ysgrifennydd y Bwrdd Apêl.

6.11 Bydd yr Ysgrifennydd yn galw cyfarfod o'r Bwrdd Apêl ac yn rhoi rhybudd ysgrifenedig o 10 diwrnod gwaith o leiaf i'r myfyriwr o ddyddiad, amser a lleoliad cyfarfod y Bwrdd Apêl. Dylai dyddiad y cyfarfod osgoi amseroedd adeg arholiad, dylid ei gynnal yn ystod oriau gwaith arferol (9am - 5pm), a dylid caniatáu i'r myfyriwr ofyn am ddyddiad neu amser gwahanol.

6.12 Bydd yr Ysgrifennydd yn darparu adroddiad ar drafodaethau'r Bwrdd Disgyblu, a chopïau o'r holl dystiolaeth ddogfennol a gyflwynir i'r Bwrdd Disgyblu, ar gyfer pob aelod o'r Bwrdd Apêl, ar gyfer y myfyriwr a'r sawl sy'n cyflwyno'r honiad yn erbyn y myfyriwr.

6.13 Caiff y Bwrdd Apêl wrando ar apêl yn erbyn canfyddiad cyfan y Bwrdd Disgyblu neu yn erbyn unrhyw ran neu rannau ohono yn unol â'r hysbysiad apêl a gyflwynwyd gan y myfyriwr. Os bydd y Bwrdd Apêl yn penderfynu bod y naill neu'r llall o'r rhesymau dros apelio, fel y nodir yn Adran 6.3, wedi'u bodloni, gall y Bwrdd Apêl ystyried yr achos yn ei gyfanrwydd cyn dod i'w benderfyniad.

6.14 Bydd y drefn yn y gwrandawiad gerbron y Bwrdd Apêl fel y nodir yn Adran 7.

6.15 Bydd penderfyniad y Bwrdd Apêl yn un o'r canlynol:

[a] Gwrthod yr apêl a chadarnhau penderfyniad y Bwrdd Disgyblu.
[b] Cadarnhau'r apêl a chaniatáu i'r myfyriwr barhau i astudio
[c] Cyfeirio'r mater yn ôl at Fwrdd Disgyblu, na ddylai fod â'r un aelodaeth â'r Bwrdd gwreiddiol.

6.16 O fewn 5 diwrnod, pan fo'n ymarferol bosib, o gwblhau trafodion y Bwrdd Apêl, bydd Ysgrifennydd y Brifysgol (neu ei enwebai) yn hysbysu'r myfyriwr yn ysgrifenedig am ganfyddiad y Bwrdd Apêl ac unrhyw gosb (os o gwbl) a osodir.

6.17 Gall apelydd sy'n parhau'n anfodlon wedi i'r drefn apêl ddod i ben, apelio i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Ceir manylion gan Ysgrifennydd y Brifysgol (neu ei enwebai) neu ar wefan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.

## 7. Gweithdrefn yng Ngwrandawiadau'r Bwrdd Disgyblu a'r Bwrdd Apêl

7.1 Bydd gwrandawiadau gerbron y Bwrdd Disgyblu a'r Bwrdd Apêl naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg, a darperir cyfieithiad yn ôl yr angen. Dim ond gyda chytundeb yr holl gyfranogwyr y gellir recordio trafodion y Bwrdd Disgyblu a'r Bwrdd Apêl.

7.2 Bydd unrhyw aelod o'r Bwrdd Disgyblu neu'r Bwrdd Apêl sy'n gysylltiedig yn bersonol ag unrhyw achos gerbron y Bwrdd yn rhoi'r gorau i fod yn aelod o'r Bwrdd ar gyfer yr achos hwnnw a rhaid cael aelod arall yn ei le.

7.3 Bydd y myfyriwr yr ymchwilir iddo'n cael cyfle i wrthwynebu presenoldeb arsylwyr sy'n fyfyrwyr. Os bydd y myfyriwr yn gwrthwynebu, bydd y Cadeirydd yn mynnu bod yr arsylwyr yn gadael.

7.4 Bydd gwrandawiadau gerbron y Bwrdd Disgyblu a'r Bwrdd Apêl yn breifat a dim ond y canlynol a all fod yn bresennol yn y gwrandawiadau hyn: aelodau'r Bwrdd; y myfyriwr a'r sawl sy'n dod gyda nhw (os o gwbl); Ysgrifennydd y Brifysgol fel Ysgrifennydd y Bwrdd; arsylwr proffesiynol (lle bo'n briodol); cynghorydd cyfreithiol i'r Bwrdd; yr arsylwr sy'n fyfyriwr; ac yn y Bwrdd Disgyblu - y Swyddog Disgyblu sy'n cyflwyno'r honiadau yn erbyn y myfyriwr a'r sawl sy'n dod gyda'r Swyddog Disgyblu (os o gwbl).

7.5 Bydd pob person heblaw aelodau'r Bwrdd Disgyblu neu'r Bwrdd Apêl a'r Ysgrifennydd yn gadael yr ystafell lle cynhelir y gwrandawiad tra bo'r Bwrdd yn ystyried ei benderfyniad.

7.6 Gall y Bwrdd Disgyblu a'r Bwrdd Apêl ohirio ei gyfarfod a gall ofyn am wybodaeth ychwanegol a/neu bod tystion yn cael eu gwahodd i ddod i'r Bwrdd ar yr amod nad yw hyn yn amharu ar ymddygiad neu gyflwyniad priodol yr achos ar ran y myfyriwr.

7.7 Bydd gan y Bwrdd Disgyblu a'r Bwrdd Apêl, ar ôl gohirio cyfarfod, yr hawl i atal breintiau myfyriwr neu wahardd myfyriwr o'r Brifysgol tan ddyddiad y cyfarfod a ailgynullir.

7.8 Bydd yr Ysgrifennydd yn paratoi cofnod o wrandawiad y Bwrdd Disgyblu a'r Bwrdd Apêl, gan gynnwys crynodeb o'r dystiolaeth a gyflwynwyd ac o'r datganiadau a wnaed gan dystion.

7.9 Anfonir datganiad o'r penderfyniad a wnaed ar unrhyw achos gan y Bwrdd Disgyblu a'r Bwrdd Apêl i'r Senedd. Serch hynny, bydd yr enwau a'r manylion yn gyfrinachol

i'r myfyriwr dan sylw, yr achwynydd, y Swyddog Disgyblu, y Bwrdd Disgyblu neu'r Bwrdd Apêl, a'r Ysgrifennydd fel bo'n briodol. Bydd gwybodaeth yn cael ei chadw ar gofnod Prifysgol y myfyriwr a bydd yn cael ei chadw cyhyd ag y bo hynny'n angenrheidiol ac yn briodol i wneud hynny.

7.10 Mewn Bwrdd Disgyblu

Yn ogystal â'r darpariaethau a nodir yn Adrannau 7.1-7.9:

[a] Gall y myfyriwr a'r unigolyn sy'n cyflwyno'r honiadau alw unrhyw dystion fel y gwelant yn dda ar yr amod eu bod yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig o enwau tystion o'r fath i'r Ysgrifennydd o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn dyddiad cyfarfod y Bwrdd Disgyblu.

[b] Bydd yr honiadau yn erbyn y myfyriwr yn cael eu cyflwyno gan Swyddog Disgyblu a gall un person ddod gydag ef/hi. Rhaid i'r honiadau a gyflwynir gan y Swyddog Disgyblu fod yn seiliedig ar y dystiolaeth ddogfennol a anfonwyd at aelodau'r Bwrdd a'r myfyriwr cyn y cyfarfod. Gall y Swyddog Disgyblu argymell canlyniad i'r Bwrdd Disgyblu.

[c] Bydd gan y myfyriwr, neu'r sawl sy'n cynrychioli'r myfyriwr, yr hawl i gyflwyno datganiad.

[d] Bydd gan bob parti hawl i gyflwyno anerchiad terfynol i'r Bwrdd ar ôl i'r holl dystion gael eu galw. Y myfyriwr, neu'r sawl sy'n cyflwyno'r achos ar ran y myfyriwr, fydd â'r hawl i siarad yn olaf.

[e] Pan fydd cynrychiolydd o broffesiwn perthnasol, a / neu aelod o'r Gwasanaethau Anabledd yn bresennol fel ymgynghorydd/ymgynghorwyr, bydd gan y Bwrdd yr hawl i ofyn unrhyw gwestiynau perthnasol cyn iddynt ystyried y canlyniad.

7.11 Mewn Bwrdd Apêl

Yn ogystal â'r darpariaethau a nodir yn Adrannau 7.1-7.9:

[a] Gall y Bwrdd Apêl, yn ôl doethineb y Cadeirydd, alw unrhyw dystion fel y gwêl yn dda ar yr amod eu bod yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig o enwau tystion o'r fath i'r myfyriwr o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn dyddiad cyfarfod y Bwrdd Apêl.

[b] Gall y myfyriwr alw unrhyw dystion fel y gwêl yn dda ar yr amod eu bod yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig o enwau tystion o'r fath i'r Ysgrifennydd o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn dyddiad cyfarfod y Bwrdd Apêl.

[c] Prif rôl tystion sy'n ymddangos gerbron y Bwrdd Apêl yw darparu tystiolaeth sy'n berthnasol i'r sail y cyflwynwyd yr apêl arnynt. Fodd bynnag, gall y Bwrdd Apêl, yn ôl disgresiwn y Cadeirydd, wrando ar dystiolaeth arall sy'n

berthnasol i'r achos.

[d] Bydd Cadeirydd y Bwrdd Disgyblu yn cyflwyno crynodeb o ganfyddiadau'r Bwrdd Disgyblu.

[e] Bydd gan y myfyriwr, neu'r sawl sy'n cynrychioli'r myfyriwr, yr hawl i gyflwyno datganiad.

[f] Bydd gan y myfyriwr yr hawl i gyflwyno anerchiad terfynol i’r Bwrdd Apêl.

## 8. Troseddau

8.1 Ni fydd y ffaith bod yr heddlu'n cymryd camau gweithredu, bod myfyriwr wedi'i gyhuddo o drosedd, neu wedi'i gael yn euog o drosedd, yn atal y Brifysgol rhag cymryd ei chamau disgyblu ei hun mewn perthynas â'r drosedd honno, os bydd wedi torri rheoliadau, codau neu amodau'r Brifysgol.

8.2 Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i adrodd am ddigwyddiadau i'r heddlu pan fo'n ystyried bod hynny'n angenrheidiol ac yn briodol. Ysgrifennydd y Brifysgol fydd yn cymryd camau o'r fath.

## 9. Rhoi Hysbysiadau a Phresenoldeb

Rhaid rhoi hysbysiadau ysgrifenedig yn y ffyrdd canlynol:

9.1 Gan unrhyw Swyddog y Brifysgol i fyfyriwr:

- trwy gyflwyno'r hysbysiad â llaw i'r myfyriwr; neu
- drwy ei anfon drwy e-bost i gyfrif Prifysgol y myfyriwr; neu
- drwy bost Dosbarth Cyntaf i’r myfyriwr i’r cyfeiriad olaf y gwyddys amdano y mae’r myfyriwr wedi’i gofrestru gyda’r Brifysgol.

9.2 Gan y myfyriwr neu'r ymgynghorydd i'r Brifysgol:

- drwy gyflwyno'r hysbysiad â llaw i swyddfa Gwasanaethau Cyfreithiol a Chydymffurfio'r Brifysgol; neu
- drwy ei anfon drwy e-bost neu bost Dosbarth Cyntaf wedi'i gyfeirio at Uwch Swyddog Diogelu, Ymddygiad a Chwynion y Brifysgol.

9.3 Bydd hysbysiadau a anfonir drwy'r post yn cael eu hystyried fel rhai a roddwyd ar yr adeg y byddai llythyr yn cael ei ddosbarthu yng nghwrs arferol post.

9.4 Os gall y myfyriwr fodloni Cadeirydd y Bwrdd perthnasol bod rhesymau da (rhesymau o'r fath i'w cefnogi gan dystiolaeth ddogfennol) dros ohirio cyfarfod o'r Bwrdd Disgyblu neu'r Bwrdd Apêl, mae gan y myfyriwr hawl i wneud cais am ohiriad. Dylid gwneud cais o'r fath o leiaf 3 diwrnod gwaith cyn dyddiad cyfarfod perthnasol y Bwrdd.

9.4.1 Dim ond unwaith y gellir gohirio cyfarfod Bwrdd.

9.4.2 Os na fydd y myfyriwr yn gwneud cais am ohiriad, gall y Cadeirydd fwrw ymlaen i gynnal y cyfarfod yn absenoldeb y myfyriwr.

## 10. Nodiadau Eglurhaol

At ddibenion y Rheoliad hwn:

10.1 Mae ‘atal breintiau’ yn golygu:

- Gwaharddiad o rai adeiladau, adrannau, gweithgareddau neu rannau o Gampws y Brifysgol.
- Cyfyngiad dethol ar bresenoldeb yn y Brifysgol.
- Gwaharddiad ar arfer swyddogaethau neu ddyletswyddau unrhyw aelodaeth bwyllgor neu swydd yn y Brifysgol neu Undeb y Myfyrwyr.
- Atal cyfleusterau neu wasanaethau penodol.

10.2 Mae 'Gwaharddiad o'r Brifysgol' yn golygu:

- Gwaharddiad llwyr am gyfnod penodol ar bresenoldeb neu fynediad i'r Brifysgol (gan gynnwys Undeb y Myfyrwyr) neu gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Brifysgol neu Undeb y Myfyrwyr. Gall fod yn ddarostyngedig i amodau, megis caniatâd i fod yn bresennol yn y Brifysgol i sefyll arholiad.

10.3 Mae ‘terfynu cofrestriad’ yn golygu:

- Ni all y myfyriwr barhau â'r rhaglen radd, ond efallai y caniateir iddo gofrestru ar raglen radd arall, yn amodol ar y gofynion mynediad a fanylir yn y Polisi Derbyniadau. Ni chaiff ceisiadau am dderbyniad eu derbyn i’w hystyried am o leiaf 12 mis neu hyd nes bod y dyddiad a bennwyd gan y Bwrdd Disgyblu wedi dirwyn i ben.

10.4 Mae ‘diarddel’ yn golygu:

- Bod y myfyriwr yn peidio â bod yn fyfyriwr yn y Brifysgol, ac ni chaniateir ei aildderbyn i’r Brifysgol ar unrhyw achlysur yn y dyfodol.